



10 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth y DU

1

Trafod trefniadau trosiannol Brexit gyda'r UE sy'n caniatáu digon o amser i gytuno ar fasnach a materion eraill sydd er budd Cymru, y DU a'r 27 Aelod-wladwriaeth bresennol yr UE

2

Gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant amaethyddol a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu fframwaith y DU ar gyfer amaethyddiaeth sy'n atal cystadleuaeth annheg rhwng rhanbarthau datganoledig.

3

Sicrhau bod trefniadau trosiannol a masnach ôl Brexit ddim yn torri'r cadwyni cyflenwi presennol sydd yn bwysig ac yn ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymreig a'r DU

4

Ceisio dod i gytundeb tymor hir gyda'r UE sy'n cadw mynediad syml a di-doll ar gyfer cynnyrch Cymreig i'r Farchnad Sengl

5

Rhannu cyllideb amaethyddol a gwledig i Gymru y tu allan i'r Fformiwla Barnett, ac mewn ffordd sy'n sicrhau bod dosbarthiad hanesyddol Cymru o'r cyllid ddim yn cael ei leihau

6

Cytuno i glustnodi cyllidebau datblygu amaethyddol a gwledig sydd yn debyg i'r rhai fyddai wedi bod ar waith petai'r DU wedi pleidleisio i aros yn yr Undeb Ewropeaidd

7

Cytuno i gyfnod trosiannol o ddeng mlynedd rhwng polisiau amaethyddol presennol a rhai'r dyfodol

8

Sicrhau bod Y Bil Diddymu Mawr terfynol yn cadw'r cydbwysedd presennol o bŵer rhwng gweinyddiaethau datganoledig

9

Sicrhau bod diogelu'r cyflenwad bwyd, incymau gwledig, ac anghenion cynhyrchu bwyd lleol yn flaenoriaeth yn ystod trafodaethau yn y dyfodol

10

Rhoi blaenoriaeth i drafodaethau gyda'r farchnad fawr a chyfoethog sydd ar ein stepen drws, sef yr UE

#FARMINGMATTERS



#AMAETHAMBYTH

Rhagor o argymhellion



Cydnabod safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid sy'n bodoli yng Nghymru, a sicrhau bod y costau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, ac unrhyw fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig, yn gymesur, ac yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a ddim yn gosod cynhyrchwyr Cymru o dan anfantais yn y farchnad Ewropeaidd

Gweld y lefelau presennol o TB fel risg economaidd difrifol i drafodaethau masnach lwyddiannus a chynnal asesiad risg ffurfiol o oblygiadau lefelau cyfredol o TB mewn gwartheg ledled y Deyrnas Unedig, beth bynnag fo cyfrifoldebau datganoledig iechyd anifeiliaid

Rhoi hwb i ymchwil i bob maes o amaethyddiaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu pwysigrwydd amaethyddiaeth yn briodol o ran diogelu'r cyflenwad bwyd, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd

Adolygu'r rheolau caffael yng ngoleuni Brexit, gyda'r bwriad o gyflwyno polisiau sy'n rhoi blaenoriaeth i gyrff cyhoeddus gefnogi busnesau lleol a Phrydeinig

Ymestyn pwerau'r Dyfarnwr Cyflenwi Bwydydd i ganiatáu bod camau gweithredu pendant yn cael eu cymryd sy'n mynd i'r afael ac arferion annheg drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan ac nid dim ond ar gyfer y nifer fach iawn o gynhyrchwyr ar gontractau manwerthwr cyflin.

Fel cam cyntaf at ddiddy-mu'r Ddeddf Hela, amrywio Atodiad 1 y Ddeddf i ddileu'r cyfyngiad ar nifer y cŵn y gellir eu defnyddio i ddenu anifeiliaid o'i lloches i alluogi ffermwyr i warchod eu hani-feiliaid yn iawn rhag ysglyfaethu.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau rheoli bTb mewn gwartheg unffurf a chyfatebol.

Sicrhau bod y rhaglen difa moch daear yn Lloegr yn mynd i gael ei gyflwyno

Sicrhau nad yw Brexit yn rhwystro rhwydweithiau goruchwylio clefydau cydweithrediadol sy'n bodoli ar draws yr UE, wrth gynyddu'r gwiriadau ffiniau i leihau'r risg o glefydau egsoftig megis clwy'r traed a'r genau yn cael eu cyflwyno.

Ffynhonnell: Maniffesto Etholiad Cyffredinol UAC 2017.
www.fuw.org.uk
Ni yw llais annibynnol ffermydd teuluol Cymru-yn cefnogi eich busnes a'ch diwydiant ers 1978

#FARMINGMATTERS



#AMAETHAMBYTH